

SL(6)219 – Rheoliadau Addysg (Eithriadau Dros Dro ar gyfer Disgyblion a Phlant Unigol) (Cymru) 2022

Cefndir a diben

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn sefydlu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer cwricwlwm ac yn gwneud darpariaeth ynghylch asesu ar gyfer disgyblion a phlant yng Nghymru ("y Cwricwlwm i Gymru").

Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u gosod fel rhan o gyfres o reoliadau i gefnogi gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022 ymlaen.

Bydd y Rheoliadau hyn yn galluogi penaethiaid ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir a darparwyr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir i benderfynu na ddylai darpariaethau'r Cwricwlwm i Gymru fod yn gymwys i blentyn neu ddisgybl, neu y dylent fod yn gymwys gydag addasiadau.

Mae rheoliad 4 yn darparu na chaniateir rhoi penderfyniad ond mewn achosion pan fo'r person perthnasol yn ystyried nad yw'n briodol gweithredu'r cwricwlwm perthnasol ar gyfer y plentyn hwnnw neu'r disgybl hwnnw am y tro. Fodd bynnag, mae amgylchiadau'n debygol o newid fel y bydd yn briodol gweithredu'r cwricwlwm perthnasol ar gyfer y disgybl hwnnw neu'r plentyn hwnnw o fewn chwe mis i'r dyddiad y daw'r penderfyniad i rym.

Mae rheoliad 5 yn darparu na chaiff hyd y penderfyniad cyntaf fod yn hwy na chwe mis.

Mae rheoliad 6 yn darparu y caniateir amrywio penderfyniad, tra bod rheoliad 7 yn gwneud darpariaeth ar gyfer dirymu penderfyniad. Mae rheoliad 8 yn darparu y caniateir gwneud penderfyniadau pellach o dan amgylchiadau penodol ac yn ddarostyngedig i gydsyniad yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu fel y bo angen. Mae rheoliad 9 yn gwneud darpariaeth debyg ar gyfer darparwyr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir.

Mae rheoliad 10 yn darparu y caiff disgybl neu riant disgybl ofyn i'r person perthnasol wneud, dirymu neu amrywio penderfyniad. Mae rheoliad 11 yn darparu bod rhaid i'r person perthnasol wneud, amrywio neu ddirymu penderfyniad o fewn dwy wythnos neu wrthod y cais.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.



Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Pan fydd disgybl neu riant yn gwneud cais i'r pennaeth, neu ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir wneud, dirymu neu amrywio penderfyniad yn unol â rheoliad 10(1) neu (2) (fel y bo'n gymwys), rhaid i'r cais gael ei wneud "ar lafar neu'n ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys y rhesymau dros ei wneud" (gweler rheoliad 10(3)). Mae'n ofynnol i'r person perthnasol wneud, amrywio neu ddirymu'r penderfyniad neu roi hysbysiad o'r penderfyniad i wrthod gwneud hynny, o fewn dwy wythnos i gael cais (gweler rheoliad 11). Fodd bynnag, ymddengys nad oes gofyniad penodol i'r person perthnasol roi rhesymau dros ei benderfyniad os yw'n gwrthod y cais. Mae hyn yn ymddangos yn anghyson â'r gofyniad penodol i rieni neu ddisgyblion roi rhesymau pan fyddant yn gwneud cais. Nodwn y gofyniad i benaethiaid ddarparu gwybodaeth (gan gynnwys rhesymau) yn unol ag adran 44 o'r Ddeddf, ond dim ond i sefyllfaoedd pan fo pennaeth yn "gwneud, yn amrywio neu'n dirymu penderfyniad o dan reoliadau a wneir o dan adran 42" y mae hyn yn berthnasol (adran 44(1) o'r Ddeddf). Nid yw hyn yn cynnwys gwrthod cais. Nodwn fod y Nodyn Esboniadol sy'n cydfynd â'r Rheoliadau yn nodi bod Rheoliad 11 yn darparu bod "rhaid i'r person perthnasol wneud, amrywio neu ddirymu penderfyniad o fewn dwy wythnos, gyda rhesymau os gwrthodir y cais". Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y mae'r ddarpariaeth yn rheoliad 11 yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i'r person perthnasol roi rhesymau os gwrthodir cais.

Rhinweddau: Craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn diffinio'r term "pennaeth" ond defnyddir y term hwn yn y Rheoliadau. Mae Offerynnau eraill yn y gyfres, megis Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 2) 2022, yn diffinio'r term "pennaeth" fel un sydd â'r "ystyr a roddir i 'head teacher' yn adran 579(1) o Ddeddf 1996". Gallai'r anghysondeb hwn o ran dull gweithredu achosi dryswch i'r darlennydd, yn enwedig o ystyried arwyddocâd y term pennaeth wrth weithredu'r Rheoliadau hyn (p'un a gaiff ei ddefnyddio'n annibynnol neu fel rhan o'r diffiniad ehangach o berson perthnasol).



Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu Technegol 1:

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi adroddiad y pwyllgor ond yn anghytuno gyda pharch â'r pwynt hwn. Mae Rheoliadau Addysg (Eithriadau Dros Dro ar gyfer Disgyblion a Phlant Unigol) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau Datgymhwyso Dros Dro") wedi eu gwneud o dan adran 42 o Ddeddf 2021. Mae adran 44 o Ddeddf 2021 yn gwneud darpariaeth atodol i adran 42. Mae adran 44 yn datgan pan fydd pennaeth yn gwneud, yn amrywio neu'n ddirymu penderfyniad o dan reoliadau a wneir o dan adran 42 rhaid iddo ddarparu'r wybodaeth a ddisgrifir yn is-adrannau (3) a (4) o adran 44 Mae'r penderfyniad o dan sylw yn benderfyniad gan y pennaeth ynghylch pa un a yw eithriad dros dro i'w wneud, ei amrywio neu ei ddirymu ai peidio. Mae'r wybodaeth honno yn cynnwys, ymysg materion eraill, y rhesymau dros wneud, amrywio neu ddirymu'r penderfyniad. Diben adran 44 yw ei gwneud yn ofynnol i'r pennaeth ddarparu gwybodaeth benodol, gan gynnwys rhesymau dros benderfyniad, wrth iddo wneud penderfyniad ynghylch pa un ai i wneud (a, dadleuwn, yn ymhlyg yn hynny, neu beidio â gwneud) penderfyniad, i amrywio (a, dadleuwn, yn ymhlyg yn hynny, neu beidio ag amrywio) penderfyniad, neu i ddirymu (a, dadleuwn, yn ymhlyg yn hynny, neu beidio â ddirymu) penderfyniad. Nid diben rheoliad 11 o'r Rheoliadau Datgymhwyso Dros Dro yw ei gwneud yn ofynnol yn benodol ddarparu rhesymau dros wrthod gwneud penderfyniad ac nid yw'n ceisio gwneud hynny ychwaith - rydym o'r farn mai dyna yw effaith adran 44 ei hun. Sut bynnag, rydym yn ystyried y byddai'r egwyddor cyfraith gyhoeddus o ran tegwch yn ei gwneud yn ofynnol i'r pennaeth ddarparu rhesymau dros ei benderfyniad. Mae'r testun ym mharagraff 8 o'r nodyn esboniadol yn adlewyrchu barn gyffredinol Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi Adroddiad y Pwyllgor ac yn cytuno â'i gasgliad. Mae diffiniad rhannol o'r term "head teacher" yn adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996 i'r perwyl bod "head teacher" yn cynnwys "acting head teacher". Nid yw'r term "acting head teacher" ei hun wedi ei ddiffinio yn Neddf 1996. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai cyfeirio'r darlennydd at y diffiniad rhannol yn adran 579(1) o Ddeddf 1996 wedi bod yn ddefnyddiol i'r darlennydd. Byddwn yn diwygio Rheoliadau 2022 i ymdrin â'r pwynt hwn pan fydd y cyfle nesaf yn codi.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 4 Gorffennaf 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

